



Pwyllgor Materion Cymreig

welshcom@parliament.uk

28 Mawrth 2025

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Ymchwiliad Carchardai, y Gwasanaeth Prawf ac Adsefydlu yng Nghymru

Yn 2019, cyhoeddom arolwg o hawliau a phrofiadau carcharorion sy'n siarad Cymraeg, sef [Cymraeg yn y Carchar](#). Gwnaeth *Cymraeg yn y Carchar* 17 o argymhellion i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (GCPheF) a derbyniwyd y cyfan ganddynt fel rhai sydd angen eu gweithredu. Roedd argymhellion *Cymraeg yn y Carchar* yn cyd-fynd ag argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig a gyhoeddwyd rai misoedd yn ddiweddarach, sef bod angen i GCPheF:

- gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd maent yn lleoli carcharorion
- casglu data ar anghenion iaith carcharorion
- ei gwneud yn glir i garcharorion eu bod yn gallu cyfathrebu â'i gilydd ac â chysylltiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg
- gwella mynediad at wasanaethau Cymraeg mewn carchardai a datblygu sgiliau iaith Gymraeg eu staff.

Lluniodd y GCPheF [gynllun iaith Gymraeg](#) newydd oedd yn ymrwmo i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny ac yn cynnwys cynlluniau ar gyfer eu gweithredu, gan gynnwys:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



- addasu'r data a gesglir ynghylch anghenion iaith carcharorion, er mwyn adnabod dewis iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac er mwyn adnabod gallu i siarad Cymraeg yn ogystal â dewis iaith
- cryfhau trefniadau er mwyn sicrhau bod data ynghylch y Gymraeg yn cael ei gasglu ar gyfer pob carcharor yn ddi-ffael, a bod modd i bob carchar gael mynediad at ddata cywir er mwyn cynllunio'i wasanaethau
- cryfhau trefniadau er mwyn monitro argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a gynigir o fewn carchardai, a rhoi cefnogaeth i garchardai gynnog y gwasanaethau hynny
- gweithredu proses barhaus i gasglu data cyfredol ynghylch sgiliau iaith staff carchardai, a defnyddio'r data hwnnw i gynllunio gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth carcharorion ynghylch y cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff
- cymryd camau, yn enwedig wrth recriwtio staff newydd, i sicrhau bod nifer digonol o staff er mwyn cynnog gwasanaethau i garcharorion sy'n siarad Cymraeg mewn modd cyson a dibynadwy
- ystyried y ddarpariaeth Gymraeg o ddechrau'r broses wrth gynllunio i agor unrhyw garchardai newydd yng Nghymru, gan gynnwys cynllunio i recriwtio staff â sgiliau Cymraeg
- adolygu'r hyfforddiant a gynigir i staff carchardai er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a amlygir yn *Cymraeg yn y Carchar*, yn benodol o ran cofnodi data ynghylch siaradwyr Cymraeg ac ymyrryd â'r rhyddid i siarad Cymraeg, ac archwilio'r posibilrwydd o gynyddu capasiti drwy ddatblygu sgiliau iaith ei staff presennol
- sicrhau bod anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth i droseddwy'r benywaidd dan strategaeth Llywodraeth y DU.

Cymeradwywyd y cynllun gennym yn 2020 ar gyfer y cyfnod 2020-23. Rydym ar hyn o bryd yn cydweithio â GCPHEF i lunio cynllun iaith Gymraeg newydd. Yn y cyfamser mae cynllun 2020-23 yn dal yn weithredol, ac mae dyletswydd ar GCPHEF i adrodd ar gynnydd y cynllun iaith yn flynyddol. Fel rhan o'r drefn honno mae fy swyddogion yn gohebu ac yn

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



cyfarfod â'r sefydliad er mwyn craffu ar yr adroddiad, a dyna yw ein prif ffynhonnell wrth ymateb i'r ymgynghoriad yma.

I ba raddau mae polisi Llywodraeth y DU a chenhadaeth gysylltiedig, wrth ymwneud â rheoli troseddwyd, yn ystyried tirwedd darparu gwasanaethau cyhoeddus Cymru?

Yn 2021 fe gyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y [Papur Gwyn Strategaeth Carchardai](#). Roedd y papur gwyn yn gosod cyfeiriad strategol y gwasanaeth carchardai ar gyfer y ddegawd i ddilyn. Mae'n gyffredin i strategaethau o'r math yma sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru ystyried ei effeithiau ar strategaethau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei strategaeth [Cymraeg 2050](#). Nid oedd y papur gwyn yn ystyried sut y byddai'n effeithio neu'n cyfrannu at *Cymraeg 2050*. Roeddem hefyd yn siomedig o weld nad oedd un cyfeiriad at y Gymraeg, na chynllun iaith GCPHEF, yn y papur gwyn.

Ymysg prif nodau'r papur gwyn oedd:

- trawsffurfio'r gweithlu trwy recriwtio 5,000 o swyddogion carchar newydd a chynyddu sgiliau'r gweithlu presennol
- mynd i'r afael ag aildroseddu gydag addysg, datblygu sgiliau a gwasanaethau paru swyddi newydd
- sicrhau data perfformiad carchardai tryloyw gyda thablau cynghrair newydd
- cyhoeddi agor canolfan breswyl beilot i fenywod yn Abertawe i ddarparu dewis arall yn y gymuned yn lle dedfryd fer o garchar.

Mae'r nodau yma yn cyd-fynd â nifer o'r argymhellion a wnaethpwyd yn *Cymraeg yn y Carchar*, ac felly hefyd flaenoriaethau cynllun iaith GCPHEF. Mae cysylltiadau amlwg rhwng dyheadau cynllun iaith GCPHEF a phrif nodau'r papur gwyn, yn benodol yng nghydestun data, y gweithlu a gwasanaethau addysg a sgiliau. Roedd felly gyfle yma yn y Papur Gwyn Strategaeth Carchardai i sicrhau bod y Gymraeg a blaenoriaethau'r cynllun iaith yn cael eu prif ffrydio a'u hystyried fel rhan ganolog o gynlluniau GCaPhEF wrth iddynt gynllunio'r gweithlu a datblygu systemau newydd ar gyfer casglu ac adrodd ar ddata. Byddai hynny wedi hwyluso a chefnogi gweithrediad cynllun iaith GCaPhEF.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Byddai'n ddefnyddiol i'r pwyllgor edrych ar pam na ystyriwyd y Gymraeg yn y papur gwyn, a hefyd y graddau y gellid ymgorffori ymrwymadau cynllun iaith Gymraeg GCPHEF yn y strategaeth wrth symud ymlaen.

Pa mor effeithiol yw'r berthynas rynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU - a'u hasiantaethau cysylltiedig - o ran cefnogi troseddwy'r Cymreig?

Adroddodd *Cymraeg yn y Carchar* bod y ffaith fod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am y system carchardai, ond bod nifer o faterion sy'n effeithio ar lesiant carcharorion wedi eu datganoli i Gymru, yn arwain at sefyllfa gymhleth a rhai anawsterau. Mae'r Papur Gwyn Strategaeth Carchardai yn galw am fwy o weithredu cyd gysylltiedig ar sail system gyfan er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o adsefydlu'n llwyddiannus. Fel rhan o hynny, mae galluogi carcharorion i siarad eu hiaith eu hunain yn dangos parch at eu hunaniaeth, ac yn eu galluogi i'w mynegi eu hunain yn well. Mewn byd delfrydol dim ond unwaith y byddai angen adnabod anghenion ieithyddol carcharorion yn y system, a byddai'r carcharorion yn gallu mynd trwy'r broses adsefydlu gyda'u hanghenion ieithyddol wedi eu diwallu. Er gwaetha'r ffaith bod gan lywodraethau Cymru a'r DU gyfrifoldebau gwahanol am rannau gwahanol o'r system, dylent gydweithio yn well i rannu gwybodaeth am ofynion ieithyddol unigolion.

Pa mor effeithiol yw gwasanaethau rheoli troseddwy'r - yn y ddalfa a'r gymuned - wrth leihau aildroseddu a chadw troseddwy'r a'r cyhoedd yn ddiogel, ac a yw safbwyntiau Cymru yn cael eu cyfrif yn ddigonol wrth gomisiynu gwasanaethau o'r fath?

Mae angen diwallu anghenion iaith troseddwy'r sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt gael eu hadsefydlu'n effeithiol. Mae galluogi carcharorion i'w mynegi eu hunain yn eu hiaith eu hunain yn arbennig o bwysig gan ystyried bod gan garcharorion fwy o anghenion na'r boblogaeth yn gyffredinol o ran anawsterau ac anabledau dysgu, ac o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Un o brif negeseuon *Cymraeg yn y Carchar* oedd bod angen i GCPHEF wella ei drefniadau mewnol er mwyn cynyddu ei allu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon i droseddwy'r yn y ddalfa a'r gymuned.

Roedd ffocws *Cymraeg yn y Carchar* a'r cynllun iaith dilynol ar wneud newidiadau i'r ffordd mae GCPHEF yn gweithredu er mwyn cynyddu'r mynediad sydd gan garcharorion i'r

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



hawliau a gwasanaethau Cymraeg y dylai fod ganddynt yn barod. Yn eu hadroddiadau blynyddol, ac mewn cyfarfodydd gyda fy swyddogion, mae GCPheF yn adrodd eu bod wedi mynd ati i wneud nifer o'r newidiadau a argymhellwyd iddynt eu gwneud yn *Cymraeg yn y Carchar*. Dyma grynodedeb o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol:

- Creu dwy swydd sydd â chyfrifoldeb am weithredu'r cynllun iaith, gydag un rôl yn ffocysu ar garchardai a'r llall yn ffocysu ar y gwasanaeth prawf
- Datblygu a darparu hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r cynllun iaith i holl staff Cymru; ac mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu'r hyfforddiant i staff ar draws yr holl ystâd yn Lloegr hefyd
- Mae'r ffurflen mae carcharorion yn ei chwblhau wrth iddynt gyrraedd carchardai bellach yn cynnwys cwestiynau ar gyfer cofnodi dewis iaith a'u gallu ieithyddol; ac mae'r hyfforddiant i staff yn pwysleisio pwysigrwydd y data hwn
- Mae'r gronfa ddata a ddefnyddir i gasglu data ar garcharorion, PNOMIS, bellach yn gallu dal gwybodaeth am allu a dewis iaith carcharorion. Dylai'r newid yma alluogi GCPheF i adnabod a thracio carcharorion sydd yn siaradwyr Cymraeg a'u galluogi i deilwra gwasanaethau i ateb eu hanghenion lle'n bosib. Rhannwyd enghraifft o arfer da sy'n digwydd yng ngharchar Parc, ac sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y cynllun iaith, lle mae staff yn recordio tafodieithoedd carcharorion hefyd er mwyn gallu asesu eu hanghenion ieithyddol yn fwy manwl a theilwra gwasanaethau os yn bosib
- Mae'r system adnoddau dynol mae sefydliadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei defnyddio, wedi'i diweddarau i ganiatáu casglu sgiliau iaith staff. Ariannwyd y prosiect i newid y system ar y cyd rhwng GCPheF a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF. Dylai hyn alluogi GCPheF i gynllunio'r gweithlu'n well, gan adnabod lle mae'r bylchau o ran sgiliau Cymraeg a gweithredu ar y wybodaeth honno. Er y cynnydd yma, nid yw GCPheF wedi llwyddo i gyhoeddi data am sgiliau ieithyddol ei staff yn yr adroddiad monitro blynyddol diweddaraf
- Mae GCPheF wedi gwneud newidiadau llywodraethu mewnol, gan greu panel cyflawni ar gyfer gweithredu'r cynllun mewn ymgais i safoni eu dulliau o weithredu ar draws y sefydliad.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Mae felly'n debyg bod rhywfaint o gynnydd wedi bod tuag at weithredu rhai o argymhellion *Cymraeg yn y Carchar*. Er hynny, nid yw monitro cynllun iaith o reidrwydd yn rhoi darlun cyflawn, ac ymddengys bod ffordd bell i fynd er mwyn gweithredu argymhellion *Cymraeg yn y Carchar* yn llawn. Er enghraifft, nid ydym wedi derbyn gwybodaeth am sut mae GCPHEF yn mynd i ystyried anghenion ieithyddol carcharorion wrth leoli carcharorion. Yn ogystal, mae gwybodaeth am ddarpariaethau Cymraeg o fewn carchardai unigol yn ddarniog, a does dim ffordd systematig gan GCPHEF o gasglu'r wybodaeth yma er mwyn cael darlun ar draws yr ystâd.

Nid yw GCPHEF wedi adrodd chwaith ar unrhyw gynnydd yn ei drefniadau recriwtio er mwyn cynyddu'r nifer o staff sy'n medru'r Gymraeg, y tu hwnt i wneud sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer pob rôl sydd wedi ei lleoli yng Nghymru. Os am wneud newidiadau gwirioneddol, mae angen i GCPHEF adnabod lle mae angen y sgiliau Cymraeg er mwyn darparu gwell gwasanaethau, dynodi'r swyddi hynny fel rhai gyda sgiliau Cymraeg yn hanfodol, ac yna rhedeg ymgyrch recriwtio sy'n targedu siaradwyr Cymraeg.

Sut mae diffyg carchar menywod yng Nghymru yn effeithio ar brofiadau ac adsefydlu troseddwyr benywaidd Cymru?

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i ni yn dal i awgrymu bod y trefniadau sydd gan GCPHEF yn eu lle i weithredu eu cynllun iaith yn well o fewn ffiniau Cymru. Rhoddir esiampl o hyn yn adroddiad blynyddol diweddaraf GCPHEF ar y cynllun iaith (Rhagfyr 2023), lle adroddwyd bod cymdeithasau Cymraeg wedi eu sefydlu mewn 2 allan o 12 o'r carchardai menywod wedi eu lleoli yn Lloegr. Mewn cymhariaeth, adroddwyd bod pob un o'r 5 carchar dynion sydd wedi eu lleoli yng Nghymru wedi llwyddo i sefydlu cymdeithas Gymraeg. Yn yr un modd, mae'r adroddiad yn mynegi tipyn mwy o hyder yn y data sy'n cael ei gasglu am sgiliau ieithyddol carcharorion o fewn Cymru, tra'n mynegi llai o sicrwydd dros y data sydd wedi ei gasglu yng ngharchardai'r menywod yn benodol. Heb ddata craidd sy'n galluogi GCPHEF i adnabod lle mae'r carcharorion sy'n siarad Cymraeg mae'n anoddach fyth i gynllunio, targedu a hyrwyddo gwasanaethau sydd wedi eu teilwra'n ieithyddol iddynt.

Argymhellodd *Cymraeg yn y Carchar* y dylai GCPHEF sicrhau bod anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth i droseddwyr benywaidd dan strategaeth y Llywodraeth Brydeinig. Yn 2023 agorwyd canolfan breswyl beilot i fenywod yn Abertawe, ond doedd

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



dim tystiolaeth yn nogfennaeth am y datblygiad, na chwaith yng nghynllun monitro diweddaraf y cynllun iaith, bod GCPHEF wedi ystyried anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg fel rhan o ddatblygu'r cynllun. Er hynny rydyn ni'n croesawu'r datblygiad, gan ei fod yn cynyddu capasiti GCPHEF i gadw troseddwy'r benywaidd yng Nghymru, ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd o gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i'r menywod hynny.

I ba raddau y mae cydraddoldeb rhwng y gwasanaethau sydd ar gael i garcharorion yn Lloegr a'r rhai sydd ar gael i garcharorion yng Nghymru, gan gynnwys mynediad at wasanaethau Cymraeg?

Fel y mynegwyd uchod yn ein hateb i'r cwestiwn am garchardai menywod, mae gwahaniaeth sylfaenol rhwng gwasanaethau Cymraeg i garcharorion sydd wedi eu lleoli mewn carchardai yng Nghymru, a'r rheini sydd wedi eu lleoli mewn carchardai y tu allan i Gymru. Er mwyn darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol, mae'n hanfodol i sefydliad gael gweithlu sydd â'r sgiliau ieithyddol i'w darparu. Yn naturiol, mae hyn yn llawer haws ei gyflawni mewn carchardai sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth. Cadarnhaodd *Cymraeg yn y Carchar* bod carcharorion wedi eu lleoli mewn carchardai yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o dderbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg na carcharorion wedi eu lleoli yn Lloegr. Mae hynny yn dal yn wir heddiw, ac yn wir, mae wedi ei adlewyrchu yng [nghynllun iaith Gymraeg GCPHEF](#). Ceir tipyn mwy o ymrwymadau i wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru yn y cynllun, tra mae'r ymrwymadau i garcharorion sydd wedi eu lleoli yng ngharchardai Lloegr yn ffocysu ar hawliau sylfaenol iawn fel hawliau carcharorion i siarad Cymraeg gyda'i gilydd a gyda'u teuluoedd a ffrindiau dros y ffôn neu yn ystod ymweliadau.

Yn ogystal â'r hawliau sydd gan garcharorion wedi eu lleoli yng Nghymru trwy gynllun iaith Gymraeg GCPHEF, mae hefyd ganddynt hawliau i wasanaethau gofal ac iechyd, sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lle mae'r carchar wedi ei lleoli. Golyga hynny bod hawliau sy'n deillio o safonau'r Gymraeg yn berthnasol i'r carcharorion hynny. Adroddodd *Cymraeg yn y Carchar* bod tystiolaeth gan y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal o fewn carchardai yng Nghymru yn awgrymu bod rhai prosesau mewn lle i ystyried anghenion iaith defnyddwyr, ond ni dderbyniwyd llawer o wybodaeth ynghylch gweithrediad gwasanaethau Cymraeg o ddydd i ddydd.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Rhan bwysig o *Cymraeg yn y Carchar* oedd y data a gasglwyd fel rhan o gyfweiliadau gyda charcharorion a chyn-garcharorion, oherwydd rhoddodd hyn well dealltwriaeth i ni o brofiadau siaradwyr Cymraeg yn y carchar. Rydym yn ymwybodol o brosiect ymchwil sydd ar y gweill gan Dr Robert Jones o Ganolfan Llywodraethiant Cymru sy'n edrych ar brofiadau carcharorion Cymraeg eu hiaith yng Nghymru a Lloegr. Mae'r astudiaeth yn rhan o brosiect ehangach sy'n edrych ar hawliau carcharorion yn y DU, ac maent yn obeithiol o gynnal cyfweiliadau gyda charcharorion a'u teuluoedd. Rydym yn gobeithio bydd y GCPHEF yn cydweithio'n agos gyda Dr Jones er mwyn cyfoethogi'r cynnwys. Awgrymwn eich bod yn dod i gyswllt â Dr Jones er mwyn darganfod mwy am y prosiect a'i ganfyddiadau hyd yn hyn.

Yn ein [hadroddiad sicrwydd](#) yn 2024 adroddom bod cynnydd a gwaith da yn digwydd mewn rhai sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg, ond roedd yn amlwg o'n canfyddiadau fod peidio gallu gorfodi ymrwymïadau cynlluniau iaith fel sy'n bosibl yng nghyd-destun y safonau yn golygu bod rhai gwasanaethau allweddol yn parhau yn wan. Ni allwn ddisgwyl gweld yr un newid mewn gwasanaethau Cymraeg a welwyd mewn sectorau eraill yn sgil dyfodiad y safonau heb ddod â'r sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith ar hyn o bryd o dan y gyfundrefn honno hefyd. Rydym wedi datgan mai un o'n blaenoriaethau ni o ran dod a mwy o gyrff dan safonau'r Gymraeg yw y dylid cyflwyno rheoliadau safonau'r Gymraeg ar adrannau Llywodraeth y DU a phersonau sy'n arfer ar ran y Goron, fel GCPHEF.

Casgliadau

- Pan gyhoeddwyd *Cymraeg yn y Carchar* roeddem yn cydnabod bod angen amser ar GCPHEF i wneud newidiadau sylfaenol i brosesau a diwylliant y sefydliad. Dros y pum mlynedd ers cyhoeddi'r cynllun iaith mae GCPHEF wedi cydweithio gyda fy swyddogion ac wedi egluro sut maent yn mynd i'r afael â'r newidiadau oedd angen eu gwneud, ac fe ymddengys bod rhai newidiadau wedi eu gwneud i'r modd maent yn gweithredu.
- Bellach mae gan GCPHEF well system casglu data am allu ieithyddol carcharorion a'i staff, ac felly dylent nawr fod yn troi eu ffocws yn fwy tuag at ddefnyddio'r data yna er mwyn cynllunio'r gweithlu a darpariaethau Cymraeg o amgylch anghenion ieithyddol carcharorion.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



- Mae angen datblygu sail ddata gwell ar gyfer mapio pa ddarpariaethau sydd ar gael yn Gymraeg fesul carchar a chysylltu hynny â'r data am allu ieithyddol carcharorion a staff er mwyn deall lle mae'r bylchau a pha garchardai sy'n gallu diwallu anghenion carcharorion sy'n siarad Cymraeg orau. Dylai'r wybodaeth yma wedyn fod yn ystyriaeth yn y broses o leoli carcharorion.
- Disgwyliwn y bydd y cynllun iaith nesaf yn mynd i'r afael â'r materion yma yn fwy manwl er mwyn symud yn agosach at weithredu argymhellion *Cymraeg yn y Carchar* ac ymchwiliad y Pwyllgor yn llawn.
- Mae'r Papur Gwyn Strategaeth Carchardai yn gosod gweledigaeth uchelgeisiol i ddiwygio'r system garchardai, ac mae angen sicrhau bod gwella gwasanaethau Cymraeg carchardai yn rhan annatod o'r broses hon. Byddai hynny'n hwyluso cyflawni ymrwymadau cynllun iaith presennol GCPheF, yn ogystal â galluogi adeiladu ar yr ymrwymadau presennol yn y cynllun nesaf. Hoffwn i'r Pwyllgor geisio sicrhau bod hynny'n digwydd trwy'r ymchwiliad yma, a gwneud argymhellion os oes angen.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones

Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales